

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: 22 Ebrill, 2016

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 28 EBRILL 2016 am 10.00 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

NODER – Mae cyfarfod paratoi ar gyfer aelodau'r pwyllgor am 9.00 a.m.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 3 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2016 (copi ynghlwm).

5 CYFLWYNO CYFLYMU CYMRU YN SIR DDINBYCH

Sgwrs gyda chynrychiolwyr BT ar y cynnydd hyd yma o ran cyflwyno Cyflym Cymru yn y Sir, cynlluniau cyflwyno'r dyfodol, cyfyngiadau gwasanaeth neu broblemau a nodwyd yn ystod y cyflwyno, a mentrau eraill sydd ar gael i wella cysylltiad ar gyfer busnesau a chartrefi nad ydynt yn gallu elwa o raglen Cyflymu Cymru.

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 11 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o flaen raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Barry Mellor
(Cadeirydd)

Raymond Bartley
Meirick Davies
Huw Hilditch-Roberts
Colin Hughes
Geraint Lloyd-Williams

Dewi Owens
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
Joe Welch

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 17 Mawrth 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Colin Hughes, Barry Mellor (Cadeirydd), Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands.

Presenoldeb Aelodau Arweiniol a ofynnwyd gan y Pwyllgor:- Y Cynghorwyr Hugh Carson Irving a Julian Thompson-Hill.

Mynychodd y Cyngorydd Raymond Bartley fel arsyllwr.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (AS), Y Prif Reolwr – Cymorth Busnes (TW), Y Cydlynnydd Archwilio (RE) a'r Swyddog Gweinyddol (CIW).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drist ddiweddar y Cyngorydd Peter Owen, a chydabyddodd ef a'r Pwyllgor y gwaith a gyflawnodd i'r Pwyllgor.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Richard Davies, Geraint Lloyd-Williams a/ac Dewi Owens.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelodau gysylltiad personol nac andwyol mewn unrhyw fater a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 28 Ionawr, 2016.

Materion yn codi:-

6. Cludiant Ysgolion Cynradd – holodd y Cyngorydd Arwel Roberts ynghylch y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r ddarpariaeth cludiant ysgol i blant o Ruddlan sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl. Roedd ei bryderon yn gysylltiedig â'r ffaith fod disgwyl i gludiant am ddim gael ei dynnu'n ôl ar ddiwedd tymor y gwanwyn a

bod y rhieni'n parhau i aros i gael gwybod a fyddai ganddynt hawl i gludiant, am ddim neu'n rhatach, o ddechrau tymor yr haf. Roedd yn poeni hefyd nad oedd ef, fel un o'r aelodau lleol, yn cael gwybod am faterion yn ymwneud â'r mater hwn ac, er gwaetha'r gefnogaeth ar draws y pleidiau i'w argymhelliad yn y cyfarfod diwethaf bod y Cyngor yn defnyddio'i bŵer diamod i drefnu teithio rhatach i'r disgyblion, does dim fel petai'n digwydd.

Sicrhaodd y Cydlynnydd Archwilio'r Aelodau fod yr argymhelliad a gymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf wedi'i anfon ymlaen at y Pennaeth Addysg a fyddai, maes o law, wrth gwblhau'r gwaith diogelwch y ffyrdd ar y llwybr ac ar ôl cynnal yr asesiad diogelwch ffyrdd ar y llwybr 'newydd', yn ystyried canfyddiadau'r asesiad ac argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â'r mater hwn. Os, yn dilyn y broses honno, yr ystyriwyd bod y llwybr yn ddiogel a bod gan rieni bryderon ynghylch ei ddiogelwch o hyd, roedd ganddynt yr hawl i apelio i Bennaeth y Gwasanaeth.

Nododd y Cyngorydd Roberts ei fod yn dymuno i'r pwyllgor Archwilio edrych ar y mater eto. Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio iddo lenwi 'ffurflen cynnig Archwilio' i alluogi'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio i ystyried ei gais. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai Archwilio ddymuno, os ystyrir bod y llwybr yn ddiogel, ystyried effeithiolrwydd y trefniadau newydd maes o law.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod, mewn ymateb i bryderon yr Aelodau yn y cyfarfod diwethaf am y llwybr penodol hwn, iddo ofyn bod asesiad diogelwch y ffyrdd yn cael ei gomisiynu i sicrhau bod asesiad y Cyngor yn gywir. Calonogodd y Cyngorydd Roberts a'r Pwyllgor y byddai Pwyllgor yr Aelodau Etholedig lleol yn cael gwybod am ganlyniad yr asesiad diogelwch y ffyrdd ac unrhyw benderfyniad cysylltiedig cyn y rhieni. Aeth ati hefyd i ymchwilio i'r honiad na fu swyddogion yn fodlon i rannu gwybodaeth gydag aelodau lleol yn yr achos hwn, ac adrodd nôl i'r aelodau ar y mater. Calonogodd yr aelodau fel mater o gwrteisi, y byddai'r swyddogion yn rhoi gwybod i'r aelodau lleol am faterion yn eu wardiau.

Gan ymateb i ymholiad ar y mater cludiant ysgolion uwchradd a gyfeiriwyd gan y rhieni am Adolygiad Barnwrol, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod bod y Cyngor wedi penderfynu datrys y mater y tu allan i'r llys gyda'r teulu dan sylw. Pwysleisiodd nad oedd er lles y Cyngor i wneud i'r plant gerdded ar lwybrau peryglus ac roedd llwybrau cludiant i'r ysgol yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i ffactorau newydd effeithio ar y llwybrau. Tynnodd sylw'r Aelodau hefyd at y ffaith y byddai'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn cael ei adolygu'r flwyddyn nesaf a rhoddodd wybod i'r Aelodau y dylent ei astudio'n ofalus i sicrhau eu bod yn fodlon â'r grymoedd a ddirprwyir i'r swyddogion.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, bod y Cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel gwir gofnod.

5 CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 2015/16

Dosbarthwyd copi o adroddiad y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio, sy'n rhoi diweddariad ar gyflawniad y Cynllun Corfforaethol 2012-17 fel yr oedd ar ddiwedd chwarter 3 2015/16, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Amlinellodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad oedd yn cyflwyno'r adroddiad y crynodeb perfformiad allweddol a phwysleisiodd:-

- bwysigrwydd perfformiad y Cyngor wrth fodloni ei Gytundebau Canlyniad gyda Llywodraeth Cymru;
- bod y Cyngor yn parhau i ystyried gwella lefelau absenoldeb salwch corfforaethol yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliant, ac felly'r rheswm am osod targed mor uchelgeisiol. Er na fodlonwyd y targed, roedd y Cyngor yn dal i gymharu'n ffafriol gydag awdurdodau eraill Cymru a byddai'n parhau i ymdrechu ar gyfer gwelliant;
- y dylai'r wybodaeth am ollyngiadau carbon fod ar gael yn y dyfodol agos. Gan fod disgwyl i'r Cyngor newid ei gyflenwr ynni ym mis Ebrill 2016, ni fyddai hyn yn broblem yn y dyfodol oherwydd bod y cyflenwr newydd wedi mynd ati i ddarparu'r wybodaeth fel mater o arfer. Nid oedd Sir Ddinbych yn unigryw wrth fethu ag adrodd ar wybodaeth am ollyngiadau carbon ar hyn o bryd, roedd yn effeithio ar fwyafrif awdurdodau lleol Cymru;
- roedd nifer y staff oedd yn cael adroddiadau arfarnu perfformiad bellach wedi cyrraedd 90%

Gan ymateb i bryderon yr Aelodau mewn perthynas â thwf a datblygiad economaidd, cynghorodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad a'r swyddogion:-

- y dylai'r Strategaeth Gaffael newydd a'r Rheolau Trefniadau Contract diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ddiweddar gefnogi datblygu economaidd. Bydd y Bwrdd Caffael yn monitro gweithrediad y Strategaeth a'r Rheolau Trefniadau Contract newydd. Yn ogystal, bydd yn sicrhau bod swyddogion mewn gwahanol wasanaethau yn ogystal â chyflenwyr yn cael hyfforddiant priodol i gyflawni'r Strategaeth a chefnogi twf economaidd;
- fod twf economaidd yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Er bod bellach dîm llai o swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yn gorfforaethol, roedd hwn yn dîm cryf iawn a oedd yno i gefnogi swyddogion eraill yn amryw wasanaethau'r Cyngor i gyflawni'r flaenoriaeth datblygu economaidd. Roedd y busnesau yn y sir bellach yn fwy cadarnhaol ynghylch rhagolygon y Cyngor o gyflawni twf economaidd. Roedd buddsoddiad sylweddol yn digwydd ar draws y sir, cyfanswm o oddeutu £200m, trwy godi adeiladau ysgol newydd, gwelliannau i lyfrgelloedd ac ati;
- roedd angen dathlu'r cyflawniadau a'r buddsoddiadau a wireddwyd hyd yma gan y Cyngor a busnesau, yn y Rhyl ac ar draws y sir, gan gynnwys y gyfradd goroesi uchel i fusnesau newydd yn Sir Ddinbych;
- er bod gan yr awdurdod lleol rôl i'w chwarae mewn datblygu economaidd, dim ond un o nifer o sefydliadau ydoedd a allai ddylanwadu ar y maes hwn, roedd gan eraill megis Llywodraeth Cymru, addysg uwch a busnesau gymaint o rôl i'w chwarae â'r Cyngor er mwyn gwireddu'r uchelgais;
- gallai'r Cyngor gefnogi datblygu economaidd yn lleol, ond ni allai reoli'r economi leol. Roedd rhai ardaloedd o'r sir yr oedd angen dull cydweithredol arnynt

gan nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella sgiliau a lefelau incwm gyda'r bwriad o ysgogi'r economi leol a ffyniant

- cyfeiriwyd at Ruddlan fel enghraifft o rywle lle'r oedd busnesau bach i weld yn ffynnu, gyda safleoedd adwerthu gwag yn ddigwyddiad prin

Cododd yr aelodau bryderon mewn perthynas â pherfformiad yn y meysydd canlynol:-

- diffyg canfyddedig cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Barc Busnes Llanelwy ac argaeledd unedau busnes i fusnesau newydd symud iddynt ar ôl iddynt sefydlu eu hunain a'u bod yn barod i dyfu. Collwyd nifer o fusnesau a dyfwyd gartref o Sir Ddinbych oherwydd prinder y safleoedd addas;
- tai cyngor – y cyfnod amser y mae tai'n wag oherwydd gofynion adnewyddu cyn iddynt gael eu hailosod;
- datblygiad tai fforddiadwy;
- blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw'r priffyrdd; ac
- addysg – cymerodd berfformiad addysgol y disgyblion ers GwE gyfrifoldeb am welliant ysgolion a nifer y disgyblion a waharddwyd o ysgolion y sir

Gan ymateb i'r uchod, dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:-

- petai gan Aelodau bryderon penodol am berfformiad mewn meysydd penodol, gallent ddilyn y broses a sefydlwyd gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio i alw ar Aelodau Arweiniol a swyddogion i drafod y pryderon hynny;
- yn ystod yr haf 2016, bydd y Pwyllgor yn dechrau monitro'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni Thema 2 Strategaeth Tai'r Cyngor, a oedd yn gysylltiedig â chreu cyflenwad o dai fforddiadwy;
- mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw priffyrdd, wynebodd y Cyngor, fel llawer o awdurdodau lleol eraill, ôl-groniad o waith drud a fyddai'n debygol o gostio oddeutu £25m i'w cywiro'n foddhaol a dim ond oddeutu £1m y flwyddyn y gellid ei ymroi tuag at y gwaith hwnne ar hyn o bryd. Felly, roedd rhaid blaenoriaethu'r gwaith ar sail risg;
- Roedd GwE'n ymwybodol iawn nad oedd y Cyngor yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd i'r sir hyd yma. Er nad oedd perfformiad disgyblion yn y sir wedi llithro ers i GwE gymryd dros y swyddogaeth gwella ysgolion, nid oedd eu perfformiad wedi cadw i fyny gyda'r awdurdodau lleol eraill. Cafodd y gefnogaeth a roddwyd gan GwE i'r sector cynradd groeso mawr ac roedd yn llwyddiannus, ond nid dyma oedd yr achos yn y sector uwchradd a'r sector hwn a ddiodefodd. Er bod cydberthyniad rhwng amddifadedd economaidd a pherfformiad y disgyblion, nid dyma'r unig ffactor a effeithiodd ar berfformiad, ac ar y cyfan roedd Sir Ddinbych mewn ardal gyfoethog ac felly dylai'r cyrhaeddiad addysgol fod yn uwch.

Wrth gloi'r drafodaeth:-

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr arsylwadau uchod, a llenwi 'ffurflenni cynnig Archwilio' ar y meysydd pryder mwyaf a amlygwyd uchod, i dderbyn y wybodaeth a ddarparwyd am berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Gynllun Corfforaethol hyd at a chan gynnwys diwedd Chwarter 3 2015/16.

6 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 3 2015/16

Dosbarthwyd copi o adroddiad y Swyddog Cwynion Corfforaethol, a ddarparodd drosolwg o ganmoliaethau, awgrymiadau a chwynion a ddaeth i law Cyngor Sir Ddinbych dan bolisi adborth cwsmeriaid y cyngor 'Eich Llais' yn ystod Ch3 2015/16 gyda'r agenda.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio ag adborth y cwsmeriaid yn ystod trydydd chwarter 2015/16. Dywedodd fod nifer y cwynion yn ystod y trydydd chwarter i lawr o gymharu â chwarter 2, ac roedd nifer y canmoliaethau wedi codi. Dros y pedair blynedd diwethaf, cafwyd tuedd am i lawr yn nifer y cwynion a ddaeth i law. Er bod y ffordd y caiff cwynion eu cofnodi erbyn hyn i'w cyfrif yn rhannol am y duedd am i lawr, cafwyd llai o gwynion gwirioneddol hefyd.

Dywedodd y Prif Reolwr: Cymorth Busnes yn ystod y pedair blynedd diwethaf fod nifer gyfartalog y cwynion fesul chwarter wedi bod rhwng 80 a 150. Dywedodd y byddai'n werth ymgymryd â rhywfaint o ddadansoddi ychwanegol petai'r cwynion mewn unrhyw chwarter yn codi i uwchlaw 150, oherwydd gallai ddynodi problem sylfaenol yr oedd angen mynd i'r afael â hi.

Gosododd y Cyngor darged hynod uchelgeisiol i ddelio â 95% o gwynion ymhen 10 niwrnod gwaith o'u derbyn. Roedd y targed hwn yn un heriol i'w fodloni, ond teimlai'r swyddogion fod hyn yn briodol er mwyn codi safonau a disgwyliadau. Dywedodd, yn unol â chais y Pwyllgor, fod paragraff 4.4 yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y broses o ddelio â chwynion mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd.

Disgwyliwyd y byddai adroddiadau perfformiad chwarterol y dyfodol yn cynnwys manylion cwynion a wnaed mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd ar wahân. Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cynghorodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:-

- Petai unigolyn yn herio dilysrwydd rhybudd o gosb benodol neu'n apelio yn erbyn ei gyhoeddi, ni fyddai'n cael ei gyfrif fel cwyn;
- Ychydig werth oedd gan gymharu nifer y cwynion a chanmoliaethau a ddaeth i law yn erbyn y nifer a gofnodwyd gan awdurdodau lleol eraill, gan fod gan bob awdurdod lleol wahanol ddulliau cofnodi. Llauer gwell oedd astudio arfer gorau wrth ddelio â chwynion a sut i'w defnyddio i wella'r dull cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol;
- Dim ond lleiafrif bach iawn o gwynion yr ystyriwyd eu bod yn gwynion annifyr. Fodd bynnag, oherwydd eu natur gymhleth a hynafedd yr unigolion oedd weithiau'n nodi'r cwynion hyn, cymerodd rai cwynion amser hwy i'w hymchwilio ac yn aml, defnyddiant adnoddau sylweddol i ddod â'r mater i gasgliad; ac
- Amrywiodd nifer y cwynion a restrwyd yn yr adroddiad yn erbyn pob maes gwasanaeth yn sgil maint a natur pob gwasanaeth h.y. roedd y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol yn un gwasanaeth mawr iawn sy'n wynebu'r cyhoedd, ac oherwydd ei faint a'r mathau o wasanaethau mae'n ei ddarparu, roedd disgwyl iddo

gael y nifer uchaf o gwynion o gymharu â gwasanaethau eraill mwy mewnol eu ffocws.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr arsylwadau uchod i gael yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor yn ystod Chwarter 3 2015/16 wrth ddelio â chwynion a chanmoliaethau yn unol â'i Weithdrefn Gwyno 'Eich Llais'

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a ofynnodd i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ei Flaenraglen Waith a darparodd ddiweddariad ar faterion perthnasol gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cafodd copi o 'ffurflen gynnig yr Aelodau' ei gynnwys yn Atodiad 2. Esboniodd y Cydlynnydd Archwilio na fyddai unrhyw eitemau yn cael eu cynnwys ar flaenraglen waith yn y dyfodol heb i 'ffurflen cynnig Archwilio' gael ei llenwi a'i derbyn i'w chynnwys gan y Pwyllgor neu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio. Roedd cymorth i'w llenwi ar gael gan y Cydlynnydd Archwilio.

Cafodd Flaenraglen Waith y Cabinet ei chynnwys yn Atodiad 3, ac mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn rhoi cyngor ar gynnydd o ran eu gweithrediad, ynghlwm yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaenraglen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd i'r dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd y diwygiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

12 Ebrill, 2016 (Cyfarfod Arbennig):-

- Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y cyfarfod a alwyd i ystyried Dyfodol y Gwasanaethau Darparwyr Oedolion, a chanfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Oedolion Mewnol. Esboniodd y Pwyllgor Archwilio y byddai'n cysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor i gael cadarnhad a oeddent ar gael i fynychu'r cyfarfod. Esboniodd y Cyngorydd C. Hughes nad oedd yn gallu cadarnhau ar hyn o bryd y byddai ar gael i fynychu'r cyfarfod yn sgil ymrwymadau gwaith.

28 Ebrill, 2016:-

- Cytunodd y Pwyllgor i sesiwn gyfarwyddyd cyn y cyfarfod i holl Aelodau'r Pwyllgor, cyn eu cyfarfod gyda swyddogion BT a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chyflwyno Band Eang yn Sir Ddinbych. Byddai'r sesiwn cyn y cyfarfod yn rhoi cyfle i Aelodau nodi meysydd i'w cwestiynu yr oeddent yn dymuno canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfarfod. Gofynnodd yr Aelodau i amser cychwyn y cyfarfod cyhoeddus gael ei aildrefnu o 9.30 a.m i 10.00 a.m. a bod y sesiwn gyfarwyddyd cyn y cyfarfod yn dechrau am 9.00 a.m.

Amlinellodd y Prif Weithredwr ei bryderon mewn perthynas â sut mae'r gwaith o Gyflwyno Band Eang yn dod yn ei flaen yn Sir Ddinbych. Teimlai y dylid gofyn am

fanylion yn nodi pa ardaloedd sydd wedi'u cwblhau, cynlluniau i'r dyfodol a'r amserlenni priodol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn symud yn ei flaen y gwaith o benodi Aelodau i'r swyddi gwag ar Aelodaeth y Pwyllgor. Esboniodd y Cyngorydd J.R. Bartley y byddai'n barod i gyflwyno'i enw i'w Arweinydd Grŵp ar gyfer un o'r swyddi gwag. Mewn ymateb i awgrym i ddefnyddio Aelodau dirprwy, esboniodd y Pwyllgor Archwilio fod y Cyfansoddiad yn destun adolygiad ar hyn o bryd.

Cyfarfu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ar 3 Mawrth 2016 ac ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor.

Gofynnodd yr SC i'r Aelodau lenwi a chyflwyno'r Ffurflenni Holiadur Hunanwerthuso a ddsbarthwyd yn ddiweddar. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llenwi'r ffurflenni, gan y byddai'r Cyngor, yn nes ymlaen yn y flwyddyn, yn destun Asesiad Corfforaethol.

PENDERFYNWYD – *yn amodol ar y diwygiadau a'r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel a osodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD – *Ni ddaeth adroddiadau i law.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Ebrill 2016
Swyddog Arweiniol:	Cydlynnydd Archwilio
Awdur yr Adroddiad:	Cydlynnydd Archwilio
Teitl:	Rhaglen Waith Archwilio

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad i'r aelodau ei hystyried.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwel yn briodol.

4. **Manylion am yr adroddiad.**

4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgor archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan

gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth fynd ymlaen disgwylir i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) wedi argymhell y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion 'PAPER' - gweler ochr gefn y 'ffurflen gynneg aelodau' yn Atodiad 2) a;
- Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu faterion â blaenoriaeth uchel

Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio

4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar agenda fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynneg' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynneg wedi dod i law oddi wrth swyddog i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.

4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser archwilio drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGA y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, gwblhau 'ffurflenni cynneg ar gyfer archwilio' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn archwilio. Gellir gweld copi o 'ffurflen gynneg' yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynneg eitem ar gyfer archwilio, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun arfaethedig i'w gynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol archwilio. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor archwilio, yna gellir

ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Aelodau Ardal (GAA) perthnasol. Yn y dyfodol ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer archwilio' gael ei chwblhau, ac i'r testun gael ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y rhaglen gan un ai'r Pwyllgor neu'r GCIGA. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynnydd Archwilio.

Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3.

Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.9 Yn Atodiad 4 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau am eu gweithrediad.

5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlyn. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp ar 21 Ebrill 2016. Os cyfyd unrhyw fater yn y cyfarfod hwnnw a fydd yn effeithio ar waith y Pwyllgor hwn, adroddir ar lafar arnynt yn y cyfarfod ar 28 Ebrill 2016.

6. Penodi Is-Gadeirydd

Mae Erthygl 4.5.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi ei bod yn rhaid i bwyllgorau craffu benodi is-gadeirydd yn flynyddol, tra bod Erthygl 4.5.2 y Cyfansoddiad yn nodi ei bod yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rôl Is-gadeirydd ddarparu datganiad ysgrifenedig o sut maent yn bodloni'r gofynion yn y swydd-ddisgrifiad (Atodiad 5) a sut maent yn gweld y pwyllgor yn gweithredu. Bydd y datganiadau hyn ar gael i aelodau'r pwyllgor cyn ethol Is-gadeirydd. Gan fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mehefin 2016, sydd ar ôl y Cyngor Blynnyddol, gofynnir i'r Pwyllgor benodi Is-gadeirydd ar gyfer gweddill tymor y Cyngor yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer y rôl hon anfon eu datganiadau/CVs at y Cydlynnydd Craffu erbyn 1 Mehefin 2016.

7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol, i wella

canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â thoriadau llym yn y gyllideb.

8. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

9. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

10. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

11. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

13. Grym i wneud Penderfyniad

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen waith a'i hadolygu.

Swyddog Cyswllt:

Cydlynnydd Archwilio

Rhif ffôn: (01824) 712554

E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Note: Any items entered in italics have not been approved for inclusion at the meeting shown by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
9 June	Cllr. Julian Thompson-Hill	1 Corporate Plan (Q4) 2015/16	To monitor the Council's progress in delivering the Corporate Plan 2012-17 (with particular emphasis on the delivery of the Outcome Agreements)	Ensuring that the Council meets its targets, its Outcome Agreements, delivers its Corporate Plan and the Council's services in line with its aspirations and to the satisfaction of local residents, and maximises the financial incentives available through meeting its Outcome Agreements	Alan Smith/Liz Grieve	May 2014
	Cllr. Julian Thompson-Hill	2. Corporate Health and Safety Annual Report	To consider the Council's management of general health and safety and fire safety matters	Assurances that the Authority is abiding and conforming with all relevant H&S legislation and therefore mitigate the risk of litigation	Gerry Lapington	May 2014
	Cllr. Bobby Feeley (required)	3. Draft Director of Social Services Annual Report for 2015/16	To scrutinise the content of the draft annual report to ensure it provides a fair and clear evaluation of performance in 2015/16 and clearly articulates future plans.	Identification of any specific performance issues which require further scrutiny by the committee in future	Tony Ward	June 2014
	Cllr. Hugh Irving	4 Your Voice' complaints performance (Q 4)	To scrutinise Services' performance in complying with the Council's	Identification of areas of poor performance with a view to the	Tony Ward/Clare O'Gorman/Meinir Blunt	February 2013

Tudalen 16

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)		Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
				complaints. The report to include: (i) a comprehensive explanation on why targets have not been met when dealing with specific complaints, reasons for non-compliance, and measures taken to rectify the failures and to ensure that future complaints will be dealt with within the specified timeframe; and (ii) how services encourage feedback and use it to redesign or change the way they deliver services	development of recommendations to address weaknesses.		
14 July	Cllr. Barbara Smith/David Smith/Julian Thompson-Hill	1.	Creating a supply of affordable homes	To examine progress in delivering theme 2 of the Local Housing Strategy	To support the delivery of the corporate priority relating to 'ensuring access to good quality housing'	Graham Boase/Jamie Groves/Angela Loftus	By SCVCG December 2015
	Cllr. Julian Thompson-Hill	2.	Corporate Risk Register	To consider the latest version of the Council's Corporate Risk Register	Effective monitoring and management of identified risk to reduce risks to residents and the Authority	Alan Smith/Liz Grieve/Nicola Kneale	November 2014
29 September (GwE representatives)	Cllr. Eryl Williams	1.	Provisional External Examinations and Teacher Assessments [Education]	To review the performance of schools and that of looked after children	Scrutiny of performance leading to recommendations for improvement	Karen Evans/Julian Molloy	September 2015

Tudalen 17

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
to be invited)						
	Cllr. Hugh Irving	2 Your Voice' complaints performance (Q 1) including social services annual complaints report	To scrutinise Services' performance in complying with the Council's complaints. The report to include: (i) a comprehensive explanation on why targets have not been met when dealing with specific complaints, reasons for non-compliance, and measures taken to rectify the failures and to ensure that future complaints will be dealt with within the specified timeframe; and (ii) how services encourage feedback and use it to redesign or change the way they deliver services	Identification of areas of poor performance with a view to the development of recommendations to address weaknesses.	Tony Ward/Clare O'Gorman/Meinir Blunt	September 2015
8 December	Cllr. Julian Thompson-Hill	1 Corporate Plan (Q2) 2016/17	To monitor the Council's progress in delivering the Corporate Plan 2012-17 (with particular emphasis on the delivery of the Outcome Agreements)	Ensuring that the Council meets its targets, its Outcome Agreements, delivers its Corporate Plan and the Council's services in line with its aspirations and to the satisfaction of local residents, and maximises the financial incentives available through meeting its Outcome	Alan Smith	April 2016

Tudalen 18

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
				Agreements		
26 January 2017 (GwE representatives to be invited)	Cllr. Eryl Williams	1. Verified External Examinations and Teacher Assessments [Education]	To review the performance of schools and that of looked after children; and GwE's impact on the educational attainment of the County's pupils. The report to incorporate GwE's Annual report and information on the 5 year trend in relation to educational attainment in Denbighshire	Scrutiny of performance leading to recommendations for improvement	Julian Molloy	September 2015
16 March	Cllr. Julian Thompson-Hill	1. Corporate Risk Register	To consider the latest version of the Council's Corporate Risk Register	Effective monitoring and management of identified risk to reduce risks to residents and the Authority	Alan Smith//Nicola Kneale	December 2015
27 April						
8 June	Cllr. Julian Thompson-Hill	1 Corporate Plan (Q4) 2016/17	To monitor the Council's progress in delivering the Corporate Plan 2012-17 (with particular emphasis on the delivery of the Outcome Agreements)	Ensuring that the Council meets its targets, its Outcome Agreements, delivers its Corporate Plan and the Council's services in line with its aspirations and to the satisfaction of local residents, and maximises the financial incentives	Alan Smith	April 2016

Meeting	Lead Member(s)	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
				available through meeting its Outcome Agreements		
13 July						
28 September						
7 December						

Future Issues

Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
Impact of Budgetary Cuts on the Deliverability of the Corporate Plan and the Council's performance in delivering services (periodically) [Task & Finish Group]	To detail the impact of present and projected budgetary cuts on the deliverability of the Corporate Plan 2012-17; and the Council's overall performance	An evaluation of the Plan's deliverability, the anticipated impact of the cuts on the Council's performance versus the actual outcome to inform the planning of a communication strategy to inform residents and stakeholders	Task and Finish Group	October 2014
Implementation of the Donaldson Report 'Successful Futures' – Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales [Education] Dependent upon the legislative timetable	To consider and monitor the plans to implement the agreed measures adopted by WG following the consultation on the review's findings	Better outcomes for learners to equip them with jobs market skills	Karen Evans	April 2015

Tudalen 19

Information/Consultation Reports

Date	Item (description / title)	Purpose of report	Author	Date Entered
Monthly Information Bulletin	Your Voice Complaints Procedure	Details of number of complaints received and dealt with for each Service via the 'Your Voice' procedure to inform the information required in the quarterly reports to the Committee	Jackie Walley/Clare O’Gorman/Meinir Blunt	June 2014
Corporate Plan (Q1 & Q3) 2016/17 September 2016 & March 2017 [Information]	To monitor the Council’s progress in delivering the Corporate Plan 2012-17	Ensuring that the Council meets its targets, its Outcome Agreements, delivers its Corporate Plan and the Council’s services in line with its aspirations and to the satisfaction of local residents, and maximises the financial incentives available through meeting its Outcome Agreements	Alan Smith	April 2016

Note for officers – Committee Report Deadlines

Meeting	Deadline	Meeting	Deadline	Meeting	Deadline
9 June	26 May	14 July	30 June	29 September	15 September

Performance Scrutiny Work Programme.doc

Updated 18/04/2016 RhE

Tudalen 20

Ffurflen Gynnig ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Archwilio	
ENW'R PWYLLGOR ARCHWILIO	
AMSERLEN I'W HYSTYRIED	
TESTUN	
Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?	
Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?	YDI/NAC YDI
Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid? (Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau)	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal fawr o'r Sir? (Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni)	YDI/NAC YDI
Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor? (Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau)	YDI/NAC YDI
Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn? (Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno)	OES/NAC OES
Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy fyddai arnoch chi eisiau eu gwahodd e.e. Aelod Arweiniol, swyddogion, arbenigwyr allanol, defnyddwyr y gwasanaeth?	
Enw'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig	
Dyddiad	

Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu


Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)



Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?



Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Archwilio. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

Cabinet Forward Work Plan

Appendix 3

Tudalen 23

Meeting	Item (description / title)		Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
26 April	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
	2	Adult Social Care Charging Policy Arrangements	To consider the report with a view to agreeing the amendments to the policy for consultation with Service Users	Yes	Cllr Bobby Feeley / Phil Gilroy
	3	Members Involvement in Appeals	To consider members involvement in appeals	Yes	Cllr Barbara Smith / Andrea Malam
	4	Officers Scheme of Delegation	To approve amendments to the scheme	Yes	Cllr Barbara Smith/Gary Williams/Lisa Jones
	5	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet’s attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
24 May	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
	2	Future of Adult Provider Services	To consider the future of adult provider services.	Yes	Cllr Bobby Feeley / Phil Gilroy / Holly

Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 24

Meeting		Item (description / title)	Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
					Evans
	3	Former North Wales Hospital, Denbigh - Compulsory Purchase Order	Authorisation to take possession of the site	Yes	Councillor David Smith / Graham Boase / Gareth Roberts
	4	Reactive Maintenance Framework	To approve the maintenance framework	Yes	Councillor Julian Thompson Hill / Elaine Rizzi
	5	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
28 June	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
	2	Corporate Plan Performance Report 2015/16 Q4	To consider progress against the Corporate Plan	Tbc	Cllr Julian Thompson-Hill / Liz Grieve
	3	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention	Tbc	Scrutiny Coordinator
26 July	1	Finance Report	To update Cabinet on the current financial position of the Council	Tbc	Councillor Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
	2	Items from Scrutiny Committees	To consider any issues raised by Scrutiny for	Tbc	Scrutiny Coordinator

Cabinet Forward Work Plan

Meeting	Item (description / title)	Purpose of report	Cabinet Decision required (yes/no)	Author – Lead member and contact officer
		Cabinet's attention		

Note for officers – Cabinet Report Deadlines

Meeting	Deadline	Meeting	Deadline	Meeting	Deadline
<i>April</i>	12 April	<i>May</i>	10 May	<i>June</i>	14 June

Updated 06/04/16 - KEJ

Cabinet Forward Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Progress with Committee Resolutions

Date of Meeting	Item number and title	Resolution	Progress
17 March 2016	5. CORPORATE PLAN – QUARTER 3 2015/16	<i>RESOLVED – that, subject to the above observations, and the completion of ‘scrutiny proposal forms’ on the areas of most concern highlighted above, to receive the information provided on the Council’s performance in delivering its Corporate Plan up to and including the end of Quarter 3 2015/16.</i>	Scrutiny proposal forms were completed with respect to the areas of concern highlighted and the Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group will consider the requests at its meeting on 21 April. The Group’s decision with respect to each topic will be reported verbally to the Committee at its meeting on 28 April 2016
	6. YOUR VOICE REPORT Q3 2015/16	<i>RESOLVED – that subject to the above observations to receive the report on the Council’s performance during Quarter 3 of 2015/16 in dealing with complaints and compliments in accordance with its ‘Your Voice’ Complaints Procedure.</i>	Lead Members and officers informed of the Committee’s observations.

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Swydd Ddisgrifiad Cadeirydd/Is-Gadeirydd Archwilio

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Aseu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygrededd
 - Parch
 - Undod
 - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
 - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
 - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.
 - Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
 - Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

Role Description Scrutiny Chair/Vice-Chair

1. PRINCIPAL ACCOUNTABILITIES

- To Full Council

2. PURPOSE OF ROLE

- Providing leadership and direction
- To participate fully in the activities of the Scrutiny Committee, the development and delivery of its work programme and any associated task and finish groups.
- To assist in the development and monitor impact of Council policy
- To hold the executive to account, monitoring performance and service delivery and challenge decisions through the call in arrangements where appropriate.
- To develop a forward work programme of the committee.
- To report on progress against the work programme to Council, and others as appropriate
- To provide confident and effective management of meetings to facilitate inclusivity, participation and clear decision making ensuring that meeting objectives are met, and the code of conduct, standing orders and other constitutional requirements are adhered to.
- To act as a focus for liaison between the council, community and external bodies in relation to the scrutiny function.
- To encourage effective contributions from all committee members in both committee and task and finish groups
- To assess individual and collective performance within the committee and liaise with the relevant Group Leader to progress training and development opportunities.
- Fulfil the accountabilities of the elected member role.

3. VALUES and EXPECTATIONS

- To be committed to the values of Denbighshire County Council and the following values in public office:
 - Pride
 - Integrity
 - Respect
 - Unity
- Attend all relevant meetings
- Carry out business electronically i.e. meetings and communication, wherever possible
- To attend mandatory training as specified in the code of conduct and the constitution.
- To participate in an annual development review to continually improve the performance of the member and the Council.
- To explain and account for personal performance as a County Councillor on a regular basis, particularly through the publication of an Annual Report on the Council's web site.